OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

1999 No. 3454

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau y Gellir eu Codi) (Cymru) 1999

Y gostyngiadau sydd i'w gwneud o ran y swm y gellir ei godi

8.—(1) Ar gyfer hereditament y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo, rhaid i'r swm y gellir ei godi ar gyfer diwrnod perthnasol, fel y'i cyfrifir yn unol ag adrannau 43, 45 neu 54 o'r Ddeddf fel y bo'n briodol, gael eu gostwng â swm a gyfrifir drwy gymhwyso'r rheolau a ragnodir yn y rheoliad hwn ar yr amod y bydd y swm y gellir ei godi yn ddim os canlyniad gostwng y swm y gellir ei godi gan swm a gyfrifwyd felly yw cynhyrchu ffigur negyddol.

(2) Yn y flwyddyn berthnasol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000, rhaid gostwng y swm y gellir ei godi â swm ("TR") a gyfrifir drwy ddefnyddio'r fformwla fel a ganlyn:

$$\frac{NCA - (BL \times LJ)}{365}$$

(3) Yn y flwyddyn berthnasol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2001 rhaid gostwng y swm taladwy â swm sy'n hafal i:

$$TR \times 2/3$$

(4) Yn y flwyddyn berthnasol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2002 rhaid gostwng y swm y gellir ei godi â swm sy'n hafal i:

$$TR \times 1/3$$